

Un o'r digwyddiadau mwyaf cyffrous a ddaeth i Benrhyn Llŷn, oedd dyfodiad y Stuart, barc haearn dri mast, ar fore Sul y Pasg, 1901, sef, llestr perthynol i gwmni J. Hay, Lerpwl, gyda phedwar ar bymtheg o griw ynghyd â'i meistr ieuanc, brodor o Hull o'r enw Robert Logan Mitchinson. Cychwynnodd y llestr o afon Mersi am hanner dydd, Gwener y Groglith yn cael ei thynnu gan dynfad; Seland Newydd oedd pen y daith i fod, petae rhagluniaeth wedi caniatáu.

Gadawodd y tynfad y Stuart chwe milltir y tu allan i Gaerbybi am un o'r gloch y bore. Roedd y gwynt yn eithaf cymedrol, a dilynwyd cwrs yn ei erbyn i gyfeiriad yr ynys werdd, cyn troi i gyfeiriad y deddwyrain, ac er fod y gwynt wedi cryfhau, nid oedd yn agos o fod yn stormus.

Am hanner awr wedi wyth y nos Sadwrn aeth y meistr i'w gaban gan orchymyn i'r mêt gadw ei lygad am olau long Caernarfon, a ddylai ymddangos ymhen rhyw ddwy awr.

Gan fod y llong wedi teithio yn gyflymach na'r disgwyl, hefyd gryn bellter oddi ar ei chwrs, daeth tir i'r golwg lle na ddylsai tir fod, a thrawyd y graig oddeutu naw o'r gloch. Doedd gan y morwyr ddim syniad ymhle yr oeddynt, nac ychwaith faint o bellter oedd rhyngddynt a thir sych. Cymerwyd i'r badau achub, a bu iddynt rwyfo yn ôl a blaen, hyd nes y gwariodd, i ddarganfod mai ychydig lathenni oedd i'r lan.

Yn yr ymchwiliad swyddogol i'r ddamwain honnai y meistr a'r mêt mai effaith niwl trwchus a fu'n gyfrwng i'r Stuart ddod mor agos i'r graig. Roedd hyn yn rhannol wir gan fod niwl wedi disgyn pan darawodd y llong, ond y gred gyffredinol oedd mai temtasiwn a fu yn gyfrifol, o ystyried beth oedd tan yr hatsus. Y gred ymysg hen forwyr yr ardal oedd mai metel yng nghraig Maen Mellt, a saif nid nepell o'r safle fu yn chwarae hafog gyda'r cwmpawd, ond beth bynnag a fu yn gyfrifol, colli eu trwyddedau wnaeth y meistr a'r mêt, y naill am chwe mis a'r llall am dri.

Fel ym mhob achlysur o longdrylliad, buan y lledaenwyd y newydd o ardal i ardal yn Llŷn, am long yn chwilfriw ar draeth anghysbell Tŷ Mawr, a bod ynddi gannoedd o dunelli o wisgi a diodydd meddwol eraill ymysg y cargo.


Er ei bod yn Sul y Pasg, bychan oedd cynulleidfia aml i addoldy y Saboth hwnnw, gan

i'r addolwyr heidio i lawr i lan y môr i weld y Stuart ar ei hochr a rhan helaeth o'i chynnwys yn britho'r traeth. Diau y cyfnewidiwyd moddion gras am foddion y diafol, gyda'r canlyniad iddynt gael eu barnu yn llym gan selogion y mudiad

Y closyn ollyngodd ar fyrder,
Y licar er llawnder i'r llawr,
Gan fyned yn afon fain felen,
Dros draethell Porth-Fechan Tŷ-Mawr.

Canfuwyd amryw o wŷr parchus yn feddw a diymadferth ymysg y gwymon, gydag eraill wedi disgyn ar eu ffordd adref.

Gydol y gwanwyn a'r haf, tyrrai pobl o bell ac agos i hawlio eu trysorau, a chlywyd aml i bregeth o gerydd yn seiadau y capelydd, am i athrawon yr ysgol Sul droi eu cartrefi yn storfeydd i'r ddiod feddwol.



Y Stewart, ar ei hochr ym Mhorth Tŷ-Mawr, neu Porth Wisgi fel y'i gekoid ar lafar gwlad.

dirwestol a'r hoelion wyth, er rhaid cyfaddef nad oedd moesoldeb yn perthyn i bob hoelen chwaith. Buan yr anghofwyd am Moses a'i orchymynion.

Roedd taith y Stuart drosodd i'r criw, ond megis dechrau oedd gofidiau Mason Cumberland, prif swyddog y tollau o Gaernarfon, gan mai ef a gafodd y cyfrifoldeb o warchod y llwyth. Ofer fu ei ymdrechion ef a'r heddlu i gadw trefn ac atal y lladrata a chollwyd llwyr reolaeth.

Eisteddai rhai ar y traeth yn canu yn hapus yn eu meddwod, gydag eraill yn casglu pob math o boteli, bach a mawr, a chyn hir deallwyd mai o'r poteli duon y llifai'r wisgi gorau.

Bu i'r merched fod yn ddigon cyfrws i lwytho'r ysbail o'r tu mewn i'w dillad gan wybod na feiddiai yr un swyddog eu harchwilio.

Ysgrifennodd Gwilym y Rhos, crydd o Roshirwaun, a bardd direidus faled i goffâu y digwyddiad. Fel ym mhob gweithdy crydd yn yr hen ddyddiau ymgasglai'r trigolion ynghyd fin nos i drin a thrafod gweithgareddau'r dydd ac i rannu newyddion, a mwy na thebyg mai felly y cafodd y crydd y wybodaeth ar gyfer y faled,

Pwy oedd y ferch ieuanc lon wisgi?
Fu'n mynnu'r poteli trwy drais,
A doddi'r rhai hynny yn ddiau,
Tu fewn i hen gluniau'i chlos pais.

Yn ôl yr hanes bu i lawer clos gael ei orlwytho a disgyn tan y pwysau.

Pwy welwyd ar draeth Porth-Fesig?
Mewn arddull gythreulig ddi-barch,
Ar gwr gweroglodd Trefgraig, caed
rhywun,
Yn edrych fel corffyn mewn arch

Roedd ambell un yn llwrymorthodwr, a chwarae teg iddynt, wedi'r cwbl, roeddynt yn rhy brysur yn casglu'r farsiaendiaeth, llestri, calico oel-cloth ac unrhyw beth arall a ddeuai i'w ffordd, Dyma'r bardd unwaith eto yn ei afiaith.

Dau flaenor gwir fawr fel byhemoth,
Fu'n cario cyrn oel-cloth run pryd,
Dau ddielflyn mewn gwyneb galeitweh,
Yn dangos moesgarwch i'r byd.

Bu ymddygiad ambell i ferch yn amheus yn ôl y sôn, a gwelodd y bardd gyfle i adrodd yr hanes yn ddi-flewyn ar dafod,

Pwy welwyd yn cario cryn lawnder?
O lestri ar fyrder i'w tai,
Mae enwau'r rhai hyn yn hysbys,
A'u henw yn warthus gan rai.

Proffwydai y gweinidogion y byddai i ddegau o feddwon gael eu magu ar aelwydydd y fro, a bod i'r ddiod feddwol ei cholyn marwol o ba le bynnag y'i ceir. Petrusai gwŷr y goler gron fod rhai yn ymsynio nad oedd y ddiod mor ddrwg wrth ei gael yn rhad ac am ddim ar lan y môr, ond beth wneir wedi i'r storfa ddarfod oedd y cwestiwn? Petrusent y byddai i'r ieuanc anghofio eu swildod, a hawdd fyddai croesi trothwŷr dafarn. Cyfeiriwyd at weddillion y Stuart, fel sgerbwd dredwedig a'i chargo yn sarff wenwynig.

Hen hanes bellach, a neb ar ôl i fod yn dyst i'r gyflafan. Daw ysgerbwd y Stuart i'r amlwg fel y cilia'r llanw, a gwelir aml i lestr a thlws ar dreselau ambell i aelwyd yn Llŷn, yn gofeb i'r dyddiau dedwydd gan mlynedd yn ôl.

Enillwyr Raffl Fawr Cymdeithas Bob Owen

Mrs Pauline Maxwell, 10 Chestnut Rd., Bradli, Wrecsam LL11 4BX - *Jwg Portmeirion.*

Mrs Nesta Rees, Bryn Ffynnon, Clawddnewydd, Rhuthun LL15 2NG - *Cyhoeddiadau'r Llyfrgell Genedlaethol.*

Mr S.W. Owen, 38 Y Bryn, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd LL55 2UN - *Cawg grisial o ganolbarth Cymru.*

Mr H. Jones, Pant y Llech Du, Rhandir Mwyn, Llanymddyfri, SA20 0NG - *Basged o newyddau Cymreig.*

Mr R. Jones, Bryn Afon, Mill St., Llanelwy LL17 0SP - *Llun wedi'i fframio.*

Mrs Krin Thomas, Clifton Villa, 2 Heol y Pentre, Pontyberem, Llanelli SA15 5HW - *Tanysgrifiad blywyddyn o'r Casglwr.*

Mrs Helen Ellis, Ynys Tywyn, Minffordd, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6EF - *Tanysgrifiad blywyddyn o'r Casglwr.*

Mrs B. Hughes, Braemar, Bryn Tirion Rd., Bagillt, Fflint CH6 6BZ - *Tanysgrifiad blywyddyn o'r Casglwr.*